



Ombwdsmon  
Ombudsman  
Cymru - Wales

## Ymateb i ymgynghoriad

Bil Safonau Gofal Iechyd Meddwl (Cymru)

Senedd: Adran neu Dîm

Cyflwynwyd: 22 Mawrth 2024

Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), mae gennym dri phrif nod.

- Rydym yn ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus.
- Rydym yn ystyried cwynion am gynghorwyr sy'n torri'r Cod Ymddygiad.
- Rydym yn ysgogi gwelliant systematig mewn gwasanaethau cyhoeddus a safonau ymddygiad mewn llywodraeth leol yng Nghymru.

Rydym yn annibynnol, yn ddiuedd, yn deg ac yn agored i bawb sydd ein hangen. Mae ein gwasanaeth yn rhad ac am ddim.

## Sylwadau cyffredinol

Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Gwnaf ymateb yn fanylach i'r cynigion penodol pan gyhoeddir y papur gwyn. Fodd bynnag, ar y cyfan, rwy'n cefnogi'r diben cyffredinol y mae'r Bil Safonau Gofal Iechyd Meddwl yn ceisio'i gyflawni lle mae gan gleifion fwy o rym, mwy o ddewis a dylanwad dros eu triniaeth ac yn cael yr urddas a'r parch y maent yn eu haeddu, lle mae hyn yn arwain at lai o anghyfiawnder a chamweinyddu.

Mae'n ymddangos bod y pedair egwyddor arfaethedig yn cyd-fynd â'r Erthyglau Hawliau Dynol ac egwyddorion hawliau dynol sefydledig FREDA sef tegwch, parch, cydraddoldeb, urddas ac ymreolaeth, sy'n cael eu mabwysiadu a'u hyrwyddo ar draws ystod o leoliadau cyhoeddus a gofal iechyd. Wrth sicrhau cyfiawnder i bobl yng Nghymru, rydym yn defnyddio'r egwyddorion hyn bob dydd wrth ymchwilio i gwynion. Maent yn dangos i ni fod materion hawliau dynol a chydraddoldeb yn aml yn anwahanadwy oddi wrth bobl sy'n cael eu trin yn annheg.

Dylai'r pedair egwyddor arfaethedig geisio gwella'r gwerthoedd sefydledig hyn ac nid ychwanegu mwy o gymhlethdod at y llwybrau sydd eisoes yn anodd i bobl sydd, yn aml, yn fwyaf agored i niwed.

Roeddwn i'n meddwl y byddwn yn rhannu rhai enghreifftiau o'n gwaith achos i ddangos y mathau o anghyfiawnder y mae pobl â chyflyrau iechyd meddwl yn eu hwynebu.

### [Bwrdd Iechyd Hywel Dda 202002558](#)

Canfuom fod Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi methu â chymryd camau i ddiwallu anghenion clinigol Mr C ar ôl i wasanaeth seicoleg ddod i ben yn sydyn, na rhoi cynllun ar waith i ddiwallu'r anghenion hynny. Gadawyd prif ofalwr Mr C, sef Ms B, heb ddigon o gefnogaeth i reoli ei ymddygiad heriol. Nid oedd y cyfathrebu â Ms B yn ddigonol ac roedd yn ei gadael yn anwybodus.

### [Cyngor Gwynedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chartrefi Cymru – 201806533 201806536 201806537](#)

Dioddefodd Mr N o seicosis a achoswyd gan gyffuriau a chafodd anaf i'r ymennydd. Derbyniodd becyn gofal a ariannwyd gan Gyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a ddarparwyd gan Chartrefi Cymru. Yn anffodus, tagodd Mr N wrth fwyta ar ei ben ei hun yn ei ystafell wely. Yn dilyn cwyn gan fam Mr N, Mrs M, bod methiannau cyfathrebu wedi arwain at Chartrefi Cymru ddim yn cael asesiadau risg a chynlluniau gofal

ar gyfer Mr N, ni chanfuom unrhyw ddogfennaeth yn ymwneud â dyfarnu'r contract, y telerau penodol yn ymwneud â Mr N a chyfrifoldebau'r partïon dan sylw.

### [Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – 201701616](#)

Ar ôl iddi fod o dan orchymyn y Ddeddf Iechyd Meddwl yng Nghymru, trosglwyddwyd Ms A i ysbyty diogel yn Lloegr. Cytunodd i aros yn yr ysbyty yn wirfoddol ar ôl iddi gael ei rhyddhau o'r gorchymyn, nes bod ôl-ofal a llety â chymorth wedi'u trefnu ar ei chyfer. Arhosodd yn yr ysbyty mewn ward adsefydlu dan glo am bron i flwyddyn ar ôl iddi gael ei rhyddhau o'r gorchymyn oherwydd methiant y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol lleol i dderbyn yr atgyfeiriad gan y Bwrdd Iechyd. Roedd ein hargymhellion yn cynnwys yr angen am ganllawiau iechyd trawsffiniol ac archwiliad gan y Bwrdd Iechyd i sicrhau nad oedd eraill o dan anfantais debyg.

## **Sylwadau cloi**

Rydym yn hyderu y bydd y sylwadau hyn yn ddefnyddiol i chi. Os hoffech drafod unrhyw rai o'm pwyntiau ymhellach, mae croeso i chi gysylltu â Tanya Nash, ein Pennaeth Polisi Dros Dro ([tanya.nash@ombwdsmon.cymru](mailto:tanya.nash@ombwdsmon.cymru)).



**Michelle Morris**

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

Mawrth 2024